

COETIR MYNYDD

Mae angen logo yma!

Cylchlythyr 1: Medi 2003

Croeso i gylchlythyr cyntaf Coetir Mynydd. Cysylltwch â Jenny os hoffech gyflwyno syniadau neu awgrymiadau o beth ddylen fod yn ei gyflawni. Hyd yn oed os na ellwch fod yn bresennol yn y cyfarfodydd byddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw syniadau neu sylwadau o'ch eiddo yr hoffech inni eu gwyntyllu yn y cyfarfodydd. Ond cofiwch gysylltu mewn da bryd

Diolch o galon am eich cefnogaeth hyd yn hyn!

Cofrestru'r Cwmni

Mae'r holl waith papur ac gyfer cofrestru'r Cwmni wedi ei gwblhau erbyn hyn. Dylai fod yn swyddogol erbyn dechrau Hydref. Gellwch gael copiau o'r Memorandwm Esthyglan ac Erthyglau'r Cwmni gan Jenny Wong. Bydd gennym fersiwn Cymraeg maes o law.

Er mwyn dod yn aelod o'r Cwmni, dylech gwblhau ffurfen gais a fydd ar gael gan unrhyw un o Fwrdd y Cwmni £5 ydy'n tâl aelodaeth blyneddol.

Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr y Cwmni

Caideirydd: Colin Jones – 24 Tan y Bwlch

Is gadeirydd: Gwen Griffith – 19 Llwybr Main

Trysorydd/ T.G.: Mike Yates – The Vestry

Ysgrifennydd: Jenny Wong – Ynys Uchaf

Nawdd: Mark Goddard – Hirdir Uchaf

Swyddog cyswllt y gymuned: Einir Frodsham – Gors yr Eira

Peiriannydd sifil: Bryn Williams – 19 Ffordd Capel Coch, Llanberis

Swyddog cyswllt y Cwmni - Jenny Wong

Ynys Uchaf, Mynydd Llandygai, Bangor, Gwynedd

LL57 4BZ Tel: 01248 602124

e-mail: CoetirMynydd@aol.com

Cystadleuaeth logo

Rydym angen logo ar gyfer Coetir Mynydd. Mae'n syniad da i gael cystadleuaeth llunio logio, tyned Caiff unrhyw un gystadlu. Hyd yn oed os na fedrwrch dynnu llun, gellwch dynnu braslun o'ch syniad a'i anfon i fewn. A phwy a wŷr – efallai mai eich syniad chi fydd yn fuddugol. Wrth gwrs, mae angen beirniad a gwobr ar gyfer y gystadleuaeth. Sgynnoch chi syniadau?

Anfonwch eich cynigion ar gyfer y logo i Jenny.

Mae angen gwirfoddolwyr

Mae llawer o waith i'w wneud a byddai'r bwrdd yn gwerthfawrogi help:-

- Cyfieithu
- Cadw cyfrifon
- Dosbarthu llenyddiaeth i Tan y Bwlch, Llwybr Main, Gefnan, Arafon etc.
- Gwneud archwiliad ecolegol

Gwerthiant Parc yr Ynys/Ocar

Cytunodd Sally Goddard i weithredu ar ein rhan ynglyn â phrynu'r argae a'r coedwigoedd gan Stâd y Penrhyn. Gofynnodd y Stâd inni gwblhau gwerthiant erbyn Tachwedd 15 fel ein bod yn gallu osgoi Gwrandawriad Gorchymyn Prynu. Dylai hyn fod yn bosibl. Mae'n dibynnu, wrth gwrs, ar adroddiad y peiriannwyr ar gyflwr yr argae.

Rheolaeth cynllunio

Yn ddelfrydol, dylid cael cynlluniau rheoli ar gyfer coedwigoedd ac ardaloedd cadwraeth. Fel arfer, dogfennau ydy'r rhain sy'n rhestru amcanion ar gyfer rheolaeth a chynllun gweithredu i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu gwireddu. Mae cynllun gweithredu o fudd mawr pan fod grŵp o bobl yn berchen ar goedwigoedd. Er enghraifft, mae'n ddefnyddiol ar gyfer sicrhau cytundeb barn nnylŷn â beth y gellir ei wneud yn y coedwigoedd, sut i fynd ati i ariannu gwahanol fentrau a threfnu gweithgareddau gwirfoddol ac yn y blaen.

Treialu Cynllun Rheoli'r Comisiwn Coedwigaeth

Dr Evelyn Over, Stiward coetir, Castell Caereinion

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth (C.C.) yn defnyddio Cynlluniau Grant Coetir (C.G.C.) sy'n rhoi nawdd i weithgareddau megis ffensio coedwigoedd derw ar dir uchel a rheoli ail dyfiant naturiol, er mwyn cyfrannu at roelaeth coetir. Ond mae problemau ynglŷn â C.G.C. fel ag y mae. Mae'r C.C. yn bwriadu newid hyn yn 2005 efo trefn rheolaeth cynllunio

newydd er mwyn cefnogi rheolaeth coetir cynaliadwy hir dymor.

Yn Mehefin 2003, gofynnodd y C.C. i stiwardiaid tir led led Cymru am enwebiadau ar gyfer treialu y dull newydd o reolaeth cynllunio. Wedi ymgynghori â phwyllgor gwaith Coetir Mynydd, enwebais Parc yr Ynys ar gyfer yr astudiaeth arbrofol yma. Dyflwynwyd dros gant o goedwigoedd ar gyfer yr astudiaeth yma. Oerbyniwyd 21 coedwig wahanol – o stadau mawr i goedwig fechan hynafol lled naturiol yn Nyffryn Gwy.

Cymeradwynwyd derbyn coetir Parc yr Ynys ar gyfer yr astudiaeth – neu gynllun peilot yma. Dyma'r manteision i Goetir Mynydd o gymryd rhan yn y cynllun:-

1. Daeth y cynllun peilot ar adeg pan mae'r grŵp wedi ei ffurfio'n llwyddiannus, yn ymchwilio i'r ffordd orau o reoli'r coedwigoedd ac ar yr un pryd yn ystyried buddiannau'r gymuned leol.
2. Pe na byddai Parc yr Ynys wedi cael ei derbyn i gymryd rhan yn y cynllun byddai'n rhaid i'r grŵp aros am ddwy flynedd arall er mwyn cael y math newydd o grant cynllun rheoli y C.C.

Amserlen y cynllun rheoli:-

- Cwblau'r adroddiad maes erbyn Medi 22
- Cyfarfod stiward y coetir yn gynnar yn Hydref (9^{fed})
- Cwblau'r broses o drin a thrafod erbyn Tachwedd 15
- Ysgrifennu'r polisi hir dymor, amcanion penodol a chynllun gweithredu am y pum mlynedd nesa erbyn Rhagfyr 15
- Cytuno ar y cynllun terfynol erbyn diwedd Ionawr 2004
- Cynlluniau peilot ar y gofrestr i'r cyhoedd
- Arwyddo'r cynlluniau peilot fel bod y gwaith yn mynd rhagddo Ebrill 2004

Am fwy o wybodaeth am y drefn newydd o reolaeth cynllunio coetir, edrychwch ar www.fcwales-planning.co.uk cyfrinair ydy 'Management'.

Trin a thrafod

Bianca Ambrose-Oji, Pryfysgol Bangor

Yn o'r agweddau mwyaf cyffrous ynglŷn â'r broses rheolaeth cynllunio ydyr cyfnod o drin a thrafod efo'r gymuned. Dym'r adeg y byddwch yn datblygu amcanion ar gyfer Parc yr Ynys/Ocar ac y bydd yr amcanion a'r bwriadau yma yn dod yn gynllun gweithredu go iawn i chi fel perchenogion coetir. Dyma'r adeg y mae gan bob un ohonoch chi wir gyfle i wneud eich marc. Mae gan bawb sy â diddordeb yn y coedwigoedd gyfle I roi eu syniadau

gerbron ynglŷn â beth a ellis ddigwydd i Parc yr Ynys yn ystod y pum myynedd nesa'.

O gadw at amserlen y C.C. bydd llawer i'w wneud yn ystod y ddeufis nesa, ond dylai fod o fudd mawr oherwydd byddwch wedi cytuno beth rydych am ei wneud efo'r coetir a sut ydych am fynd o'i chwmpas hi.

Y syniadau a wyntyllir yn ystod y cyfnod yma o drin a thrafod a fydd yn ffurfio'r sylfaen i'r cynllun ffudduad a gellir ei ddefnyddio i ddod o hyd i nawdd ar gyfer unrhyw waith y dymumech ei wneud yn y coetir.

Er mwyn rhoi cyfle i bawb sy eisiau bod yn rhan o'r trin a'r thrafod, cynhelir rhwng dau a phedwar o gyfarfodydd. Cynhelir y cyfle cynta i drin a thrafod nos wener, Medi 26.

Trwsio'r argau

Cafwyd adroddiad gan Mr Collinson, stiward tir, Penrhyn, yn son i'r peiriannwyr ddwend wrtho fod yr argau mewn gwell cyflwr nag a feddylwyd ar y dechran ac nad oes llawer o'i le arno. Addawodd Mr Collinson anfon copi o'r adroddiad pan ddaw i law.

Y munud y cwblheir y pryniant bydd rhiad cael cynllun rheoli ar gyfer cynnal a chadw'r argau a'r llyn. Roedd rhai yn poeni am y llaid yn yr argan, ond gan nad ydy'r llaid yn achosi llawes o broblem, does dim rhaid meddwl am ei glirio ar hyn o bryd. Dangosodd eraill ddiddordeb mewn codi tyrbein hydro electric bychan wrth yr argau fel ffordd o ddod ag incwm i mawna gan defnyddio'r dŵr dros ben i droi'r hen olwyn ddŵr yn Felin Fawr. Rhwir ystyriaeth bellach i'r posibiladau hyn pan fydd y grŵp wedi hen sefydlu.

Gwybodaeth am y coedwigoedd

Hoffem gasglu cymaint o wybodaeth ag y gallem am y coedwigoedd. Ar hyn o bryd, rydym wedi dechrau rhestru'r adar a'r pryfetach a welir yno. Mae gwirfoddolwyr yn barod i helpu cynnal arolwg botanegol. Oes ganddoch wybodaeth arbennigol o'r coedwigoedd? Hoffem gael gair efo chi. Tybed oes rhywun yn gwybod mwy am hanes y safle? Byddai'n braf cael clywed gennych.

